



Rheolwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr – 1 Ebrill 2020



Beth yw'r pwyntiau allweddol?

Bu'n rhaid i reolwyr gofal preswyl i blant gofrestru gyda ni ers **2007**

Mae **256** o reolwyr wedi cofrestru, sef cynnydd o gymharu â **231** yn **2019**

44 yw oedran cyfartalog reolwyr

Mae **205** o wasanaethau gofal preswyl i blant wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae rhai reolwyr ar y Gofrestr yn ddirprwy reolwyr neu'n reolwyr cynorthwyol



Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

Mae nifer y rheolwyr gofal preswyl i blant wedi cynyddu **43%** yn y pum mlynedd ddiwethaf

Ni fu newid i'r gymhareb menywod a dynion, sef **2:1**

Fe wnaeth canran y rheolwyr sydd wedi'u cyflogi yn y sector preifat gynyddu ychydig, o **77%** yn **2015** i **79%** eleni

Mae'r ganran sydd wedi bod yn eu rôl bresennol ers pum mlynedd neu fwy wedi cynyddu o **20%** yn **2015** i **29%** eleni



Faint sydd wedi ymuno â'r Gofrestr a'i gadael?

Ymunodd **43** o reolwyr â'r Gofrestr a gadawodd **18** yn y flwyddyn ddiwethaf

Tynnwyd enwau **44%** o'r ymadawyr gan na wnaethant gynnal eu cofrestriad

Gofynnodd **17%** o'r ymadawyr am dynnu'u henw gan nad oeddent yn gweithio mewn gofal preswyl i blant yng Nghymru mwyach



Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

Mae gan holl reolwyr gofal preswyl i blant gymhwyster perthnasol

Mae **61%** yn dal Diploma Lefel 5 cyfredol y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

Mae pob un o'r gweddill yn dal cymhwyster cyfwerth derbyniol



Ymhle mae reolwyr yn cael eu cyflogi?

Mae **79%** yn gweithio yn y sector preifat

Mae **15%** yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae **29%** o reolwyr wedi bod yn eu rôl bresennol ers pum mlynedd neu fwy

Mae **51%** o reolwyr wedi newid i rôl newydd yn y tair blynedd ddiwethaf



Beth yw proffil rheolwyr?

Mae **162** o reolwyr yn fenywaidd a **94** yn wrywaidd

Mae **39%** o reolwyr yn **40** oed neu'n iau

Mae **96%** o reolwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu'n wyn Gwyddelig

Mae **36%** yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu Gymraeg rhugl

Mae llai nag **1%** o reolwyr yn ystyried eu bod yn anabl